



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

At: Pob Meddyg yng Nghymru

11 Ionawr 2021

Annwyl Gydwethwyr

Arfarniad Meddygol - Estyniad o “fethiant cymeradwy”

Diolch am eich cefnogaeth a'ch gwaith eithriadol yn ystod yr amseroedd unigryw hyn. Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau'r safbwynt ar ddarparu arfarniad meddygol yng Nghymru.

I gydnabod y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth, **bydd yr opsiwn ar gyfer cyfnod arfarnu 'methiant cymeradwy' yn cael ei ymestyn i ddiwedd mis Mawrth 2021**. Efallai y bydd yn fuddiol i lawer barhau ag arfarniad cefnogol, fodd bynnag, bydd y rhai sy'n dymuno gwrthod yr opsiwn o arfarniad yn derbyn 'methiant cymeradwy'. Mae arfarniad o fethiant cymeradwy yn gohirio'r broses am 12 mis.

Rydym bob amser wedi rhoi gwerth mawr ar y broses arfarnu yng Nghymru ac yn cydnabod gwerth arfarnu wrth gefnogi'r proffesiwn. Erys argaeledd arfarniad lles a chefnogol i'r rhai sy'n dal i fod eisiau cael trafodaeth arfarnu ar hyn o bryd. Mae llawer wedi manteisio ar arfarniadau o'r fath yn ystod y misoedd diwethaf a'r adborth a gawsom yw eu bod wedi bod o werth sylweddol. Yn yr amgylchiadau hyn gellir cynnal trafodaeth arfarnu heb lawer o wybodaeth ategol, gyda ffocws ar les ac unrhyw newidiadau i arfer o ganlyniad i'r pandemig.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'ch Swyddog Cyfrifol Lleol neu'r Uned Cymorth Aiddilysu yn AaGIC os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Mae dolenni i wybodaeth bellach am arfarnu yng nghyd-destun y pandemig a sut y gellir ei gynnal yn ystyriol ac yn effeithiol i'w gweld isod:

- **Dychwelyd i Arfarnu - canllaw i'r rhai a Arfanir ac Arfarnwyr:**
[Dychwelyd i Arfarnu | CPD for General Practitioners \(heiw.wales\)](#)
- **Canllawiau Arfarnu Rhithwir :**
[Canllawiau Arfarnu Rhithwir | CPD for General Practitioners \(heiw.wales\)](#)

Diolch am eich cefnogaeth barhaus



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon/Tel: 03000 257028
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebostr/Email: PSCchiefMedicalOfficer@gov.wales

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'Frank Atherton', with a horizontal line extending to the right.

DR FRANK ATHERTON

cc Pob Swyddog Cyfrifol yng Nghymru
UCA